Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llyr Gruffydd AM,
Chair Finance Committee,
The National Assembly for Wales,
Cardiff Bay,
Cardiff
CF99 1NA

30 Ebrill 2019

Annwyl Llyr,

DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2013

Diolch am gyfeirio at y newidiadau a gynigiwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer bil i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a bil drafft Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru).

Roeddech yn gofyn a oedd gen i unrhyw sylwadau am y cylch gorchwyl. Roeddech hefyd yn gofyn a oeddwn yn bwriadu mynd i'r afael â'r gwrthdaro rhwng y dyletswyddau statudol a osodir ar Archwilydd Cyffredinol Cymru - neu a fyddwn o blaid cynnwys newid o'r fath mewn bil pwyllgor yn y dyfodol.

Gallaf gadarnhau fy mod yn fodlon â'r cynnig ynglŷn â'r posibilrwydd o ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 drwy fil Cynulliad yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddwch yn gwerthfawrogi fod gan y Llywodraeth ei rhaglen ddeddfu lawn ei hun a'i bod hefyd yn delio â chanlyniadau Brexit. Os bydd y bil yn mynd rhagddo, dim ond cymorth technegol cyfyngedig iawn y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu ei gynnig.

O ran y cylch gorchwyl, byddwn yn awgrymu y gallai'r pwyllgor hefyd ystyried unrhyw gynigion eraill gan y Swyddfa Archwilio o ran codi ffioedd am waith a wneir ar gyfer Llywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol, a'r Ombwdsmon. Cafodd y rhain eu hamlinellu mewn llythyr am y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a anfonwyd at eich rhagflaenydd ym mis Mehefin 2018 (IG/18/005/HVT/2856/SD 21 Mehefin 2018). Er bod y Swyddfa Archwilio o'r farn nad yw'r newidiadau hyn yn rhai cyfreithiol eu natur, mae posibilrwydd y byddent yn rhoi terfyn ar y broses lle mae'r Swyddfa Archwilio yn codi ar Lywodraeth Cymru, y Cynulliad a'r Ombwdsmon. Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru wedi cwestiynu, yn ystod y cyfnod

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymgynghori, a oedd hyn yn briodol gan fod gosod a thalu ffioedd yn rhan bwysig o'r broses ymgysylltu â chleientiaid ac o sicrhau eu bod yn cael gwerth am eu harian.

Yn gywir,

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd